Canllawiau ar y Cyd i Ymgeiswyr mewn Etholiadau

Pan fydd pethau'n mynd yn rhy bell

Cynnwys

Pam mae angen y canllaw hwn? 3

Beth allai ddigwydd? 3

Eich Amddiffyn Chi'ch Hun, Eich Teulu, Eich Ffrindiau a'ch Cydweithwyr 4

Pryd Ddylwn i Gysylltu â'r Heddlu? 5

Dolenni Allweddol 6

Pam mae angen y canllaw hwn?

Mae dadleuon a thrafodaethau gwleidyddol yn sail i'n proses ddemocrataidd. Mae'r rhyddid i gymryd rhan mewn dadleuon ac i anghytuno ag eraill yn elfen allweddol o fywyd cyhoeddus.

Ond weithiau, gall fynd yn rhy bell. Ymddiswyddodd dros 50 o ASau cyn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2019, gyda llawer ohonynt yn dweud bod hynny'n rhannol oherwydd eu bod wedi wynebu ymddygiad sarhaus. Mae menywod yn wynebu lefel anghymesur o ymddygiad annerbyniol. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i herio ymddygiad o'r fath, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat.

Cyd-gynhyrchwyd y canllaw hwn gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y Coleg Plismona a'r Comisiwn Etholiadol i'ch helpu i adnabod ymddygiad bygythiol ac ymateb iddo. Mae'n cynnig cyngor ymarferol yn seiliedig ar brofiadau ymgeiswyr a phrofiad plismona yn y gorffennol. Mae hefyd yn amlinellu dangosyddion allweddol a throseddau perthnasol, yn cynnig sut y gallwch amddiffyn eich hun ac yn rhoi dolenni i wybodaeth berthnasol arall.

Beth allai ddigwydd?

Mae cyfnod yr etholiad yn rhoi llawer o bwysau ar ymgeiswyr, gan gynnwys mwy o graffu arnoch chi a'ch safbwyntiau gwleidyddol. Bydd y cyhoedd yn dod i wybod mwy amdanoch chi, ac mewn rhai achosion, yn anffodus, felly hefyd am y rhai hynny sy'n agos atoch chi.

I'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, ac am y rhan fwyaf o'r amser, ni fydd y pwysau hyn yn effeithio ar eich diogelwch personol. Fodd bynnag, yn achlysurol, cafwyd achosion o aflonyddu ar ymgeiswyr a'u bygwth i raddau annerbyniol. Gall hyn gael effaith seicolegol sylweddol ar ymgeiswyr a'r rhai hynny sy'n agos atynt, a gall effeithio ar eu llesiant. Mewn rhai achosion, mae'r mathau hyn o ymddygiad a'r camau a gymerwyd wedi cyrraedd y trothwy troseddol. Mae'r enghreifftiau gwaethaf wedi arwain at drais ac anafiadau.

Mae'n bwysig cydnabod beth allai ddigwydd a'r camau y gallwch eu cymryd. Mae'r cyngor yn y canllaw hwn yn berthnasol i'ch bywyd gwleidyddol a'ch bywyd preifat – mae'n bosibl y ceir achosion o aflonyddu ar eich teulu, eich ffrindiau a'ch cydweithwyr ac achosion o'u bygwth. Yn ogystal ag enghreifftiau a fydd yn digwydd fel rhan o fywyd cyhoeddus, gall mathau hyn o ymddygiad a chamau gweithredu ddigwydd yn bennaf mewn mannau rhithwir (‘ar-lein’).

Eich Amddiffyn Chi'ch Hun, Eich Teulu, Eich Ffrindiau a'ch Cydweithwyr

Mae camau y gallwch eu cymryd er mwyn helpu i'ch amddiffyn chi eich hun ac eraill, er enghraifft:

- Pan fyddwch yn mynychu hustyngau neu gyfarfodydd cyhoeddus, byddwch yn ymwybodol o'r amgylchedd o'ch cwmpas ac os bydd rhywbeth neu rywun yn achosi pryder i chi o ran eich diogelwch, rhowch wybod i'r heddlu drwy ffonio 999 os bydd y bygythiad neu'r perygl yn digwydd yn y fan a'r lle neu drwy ffonio 101 i roi gwybod am weithgarwch amheus sydd eisoes wedi digwydd.
- Ystyriwch eich diogelwch wrth ganfasio ac ymweld â phleidleiswyr ar garreg y drws. Er bod dadleuon gwleidyddol yn rhan allweddol o'n democratiaeth, os byddwch yn teimlo nad ydych yn ddiogel, rhowch y gorau iddi. Os yw'n bosibl, ewch â rhywun gyda chi'n gwmni pan fyddwch yn ymweld â chartrefi, neu dylech o leiaf roi gwybod i rywun ble y byddwch yn canfasio, a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud penderfyniadau diogel ar garreg y drws.
- Cadwch gofnodion o unrhyw ymddygiad bygythiol (beth, ble, pryd) – po fwyaf o fanylion, y gorau.
- Peidiwch ag ymgysylltu ag unigolion sy'n eich stelcio/yn aflonyddu arnoch (ar-lein ac all-lein).
- Rhowch wybod i'ch darparwr gwasanaethau rhyngrwyd / cwmni ffôn symudol am unrhyw achosion o fygwth.
- Defnyddiwch adnoddau ar gyfer rhoi gwybod am ymddygiad sarhaus ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Blociwch/rhowch wybod am droliau. Gallwch ddiffodd sylwadau ar bostiadau unigol ar lwyfannau Meta (Instagram a Facebook) os bydd angen i chi wneud hynny
- Cynhaliwch archwiliad iechyd ar-lein – edrychwch ar wybodaeth ar-lein gan sicrhau bod cyn lleied o wybodaeth bersonol ar gael â phosibl.
- Gofynnwch am gyngor gan eich heddlu lleol ar ddiogelwch personol a diogelwch adeiladau (e.e. arolwg diogelwch o'ch cartref/ gweithle)
- Dylech fod wedi cael manylion pwynt cyswllt unigol eich heddlu yn eich llythyr ymgeisydd. Os bydd angen i chi drafod troseddau neu bryderon diogelwch fel ymgeisydd, dylech ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd. Dylech bob amser ffonio 999 mewn argyfwng.

Mae rhagor o gyngor a gwybodaeth ar gael o dan yr adran cysylltiadau allweddol, ond os byddwch chi'n teimlo eich bod chi neu bobl eraill mewn perygl ar adeg benodol, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Pryd Ddylwn i Gysylltu â'r Heddlu?

Gallai'r gweithredoedd a'r ymddygiadau isod gael eu hystyried yn drosedd a dylid tynnu sylw eich heddlu lleol atynt. Mae canllawiau'r CPS ar ymateb i ymddygiad bygythiol mewn etholiadau a swyddi cyhoeddus yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth am fathau o droseddau, er enghraifft:

- Gohebiaeth, ar-lein neu all-lein, sy'n cynnwys iaith sarhaus neu fygythiol.
- Gall ymdrechion parhaus ac annymunol i gysylltu â chi fod yn gyfystyr ag aflonyddu neu stelcio.
- Achosion o fygwth neu ymddygiad sarhaus sy'n hiliol, yn homoffobig neu sy'n gwahaniaethu fel arall.
- Obsesiwn â chi neu â mater sy'n gysylltiedig â'ch ymgyrch.

Gallai'r dangosyddion canlynol (‘baneri coch’) fod yn arwydd fod y sefyllfa yn gwaethygu a dylid tynnu sylw eich heddlu lleol atynt ar unwaith (ffoniwch 999):

- Bygythiad uniongyrchol o drais.
- Syniadau obsesiynol – os bydd rhywun yn ymddangos yn benderfynol o weithredu mewn ffordd benodol neu'n gwneud math penodol iawn o fygythiad neu gyfeiriad at gynllun.
- Os byddwch yn dod yn ymwybodol bod arfau gan yr unigolyn neu ei fod yn meddu ar sgiliau sy'n gysylltiedig ag arfau.
- Os bydd yr unigolyn yn rhyddhau gwybodaeth bersonol amdanoch chi nad yw eisoes yn hysbys i'r cyhoedd.

Troseddau perthnasol

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am droseddau perthnasol gan Wasanaeth Erlyn y Goron isod:

https://www.cps.gov.uk/publication/responding-intimidating-behaviour-elections-and-public-office-cps-guide

Dolenni Allweddol

Canllawiau diogelwch ar gyfer etholiadau

Mae casgliad o adnoddau cyngor, gan gynnwys cyngor ar seiberddiogelwch, ar gael gan:

www.gov.uk/government/publications/security-guidance-for-may-2021-elections

Cyngor cyffredinol, gan gynnwys cyngor ar ddiogelwch ar-lein

Get Safe Online: www.getsafeonline.org

Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh: www.suzylamplugh.org

Cymorth i Ddioddefwyr: www.victimsupport.org.uk | Ffôn: 08 08 16 89 111

Cyngor i gynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol hefyd yn cynnig cyngor defnyddiol i gynghorwyr sydd hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr, er enghraifft, cyngor ar fynd i'r afael ag ymddygiad sarhaus ar-lein. Mae'r cyngor hwn ar gael yn:

https://www.local.gov.uk/our-support/guidance-and-resources/civility-public-life-resources-councillors/handling-abuse-and

https://www.local.gov.uk/our-support/communications-and-community-engagement/social-media-guidance-councillors

Cyngor mwy cyffredinol i ymgeiswyr

Y Comisiwn Etholiadol

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ein-canllawiau/ymgeisydd-neu-asiant

Y Coleg Plismona

https://www.college.police.uk/app/policing-elections

Canllawiau ar y Cyd i Ymgeiswyr mewn Etholiadau
Pan fydd pethau'n mynd yn rhy bell
Mai 2024